

Bodloni gofynion llythyrau cylch gwaith

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Medi 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi yr adroddiad hwn o dan adran 61(3)(b) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch aildddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei aildddefnyddio, rhaid i'ch aildddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ffeithiau a ffigurau allweddol	6
Ein canfyddiadau	8
Argymhellion	16
Atodiadau	17
1 Ynglŷn â'n gwaith	18

Ciplun archwiliad

Yr hyn yr edrychom arno

- 1 Gwnaethom edrych ar sut y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn gweithio i fodloni gofynion ei lythyrau cylch gwaith ar gyfer 2025–26 a 2026–27.
- 2 Mae hyn yn cynnwys asesu:
 - sut y mae'n cynllunio ac yn blaenoriaethu y camau gweithredu yn ei lythyr cylch gwaith;
 - ei drefniadau risg ariannol a llywodraethu sy'n cefnogi'r broses o fodloni gofynion llythyrau cylch gwaith; ac
 - y cynnydd y mae wedi ei wneud wrth fodloni'r gofynion a nodir yn y llythyrau cylch gwaith.

Pam mae hyn yn bwysig

- 3 Mae pwyslais cynyddol ar yr hyn y mae DHCW yn ei gyflawni. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr cylch gwaith yn nodi ei chyllid a'i blaenoriaethau ar gyfer 2025–26. Uwchgyfeiriwyd DHCW i Lefel 3 (Monitro Uwch)¹ ym mis Mawrth 2025 oherwydd pryderon ynghylch cyflawni rhaglenni digidol mawr.
- 4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hail lythyr cylch gwaith ym mis Mawrth 2026. Nododd eto y dyraniad ariannol ond nododd fod y Cyllid Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol yn cael ei adolygu ac nad oedd wedi ei gytuno arno eto. Ym mis Ebrill 2026, uwchgyfeiriodd Llywodraeth Cymru DHCW i Lefel 4 – Ymyrraeth wedi ei Thargedu. Roedd hyn yn ymwneud â phryderon ynghylch cyflawni, atebolrwydd ac arweinyddiaeth.

¹ [Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru | LLYW.CYMRU](#)

Yr hyn a ganfuwyd gennym

- 5 Canfuom fod DHCW wedi dilyn dull cynllunio rhesymegol drwy gyfuno gofynion Llywodraeth Cymru â'i gynllun ei hun. Fodd bynnag, mae llythyrau cylch gwaith sydd ar gael yn hwyr yn gwneud cynllunio'n anoddach ac yn gadael llai o amser i'w cyflawni. Roedd gan DHCW gynllun cyllido clir ar gyfer 2025-26 a gefnogwyd gan ei ddyraniad craidd a Chyllid Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol ychwanegol. Gwnaeth hyn ei helpu i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.
- 6 Mae'r rhagolygon ar gyfer 2026–27 yn fwy ansicr. Mae dull Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol yn cael ei adolygu ac nid yw wedi ei gytuno arno eto. Mae hyn yn her pan fo'r sefydliad eisoes wedi ymrwymo llawer iawn o adnoddau ar gyfer rhaglenni mawr. Mae rhewi recriwtio, yr angen i wneud arbedion, a phosibilrwydd o golli profiad yn cynyddu'r risg efallai na fydd rhai o'i gynlluniau yn cael eu cyflawni.
- 7 Nid yw adroddiadau DHCW yn dangos yn glir nac yn ddigonol pa mor dda y mae'n bodloni gofynion llythyrau cylch gwaith Llywodraeth Cymru. Mae integreiddio'r cyflawniadau llythyrau cylch gwaith yn ei gynlluniau yn helpu'r nod o gyflawni, ond mae hefyd yn gwneud y cynnydd yn anoddach ei olrhain. O ganlyniad, ni allwn ffurfio safbwynt ar raddau y cynnydd wrth fodloni gofynion llythyr cylch gwaith 2025-26 ar wahân. Mae dadansoddiad ehangach o gyfanrwydd cyflawniad y cynllun yn dangos bod llawer iawn o'r gwaith, oddeutu 30% ohono, wedi ei gyflawni ym Mis 12. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch yr amserlen gyflawni sy'n creu pwysau tua diwedd y flwyddyn ariannol.

Yr hyn a argymhellir gennym

- 8 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i DHCW, gan ganolbwyntio ar yr hyn a ganlyn:
 - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gael dealltwriaeth gynharach o ofynion llythyr cylch gwaith y flwyddyn ganlynol.

- Adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar y risg ariannol a allai effeithio ar y broses o gyflawni blaenoriaethau llythyr cylch gwaith.
- Sicrhau bod proses adrodd amlwg o gymharu â blaenoriaethau llythyr cylch gwaith.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

Roedd llythyr cylch gwaith 2025–26 yn cynnwys 94 o gyflawniadau a 71 o gerrig milltir. Roedd hyn ochr yn ochr â 345 o gerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig gwreiddiol.

Roedd llythyr cylch gwaith 2025–26 yn nodi dyraniad cyllid craidd ar gyfer DHCW. Roedd hyn yn cynnwys bron i £71 miliwn mewn refeniw, oddeutu £20 miliwn ar gyfer technoleg a rheoli gwybodaeth gofal sylfaenol a £3 miliwn mewn cyfalaf dewisol. Darparodd oddeutu £20 miliwn mewn refeniw hefyd a £9 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer rhaglenni blaenoriaeth cenedlaethol.

Roedd llythyr cylch gwaith 2026-27 yn nodi 20 blaenoriaeth allweddol, a gefnogwyd gan ystod o fesurau canlyniadau.

Roedd llythyr cylch gwaith 2026–27 yn nodi dyraniad cyllid craidd sylfaenol ar gyfer DHCW. Roedd hyn yn cynnwys bron i £78 miliwn mewn refeniw, dros £22 miliwn ar gyfer technoleg a rheoli gwybodaeth gofal sylfaenol, oddeutu £8 miliwn mewn cyllid adnoddau anghyllidol a £0.2 miliwn ar gyfer datblygu gofal sylfaenol. Yn wahanol i 2025–26, nid oedd y llythyr cylch gwaith yn cynnwys cyllid a gadarnhawyd ar gyfer cyfalaf dewisol na rhaglenni blaenoriaeth cenedlaethol.

Nid oedd Cyllid Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol ar gyfer 2026-27 wedi ei gytuno arno ar adeg ein hadolygiad.

Ein canfyddiadau

Cynllunio a blaenoriaethu

Mae DHCW yn dilyn dull cynllunio rhesymegol, ond mae angen iddo weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddechrau'r broses hon yn gynt

- 9 Mae'r ffaith bod gofynion llythyrau cylch gwaith ar gael yn hwyr wedi ei gwneud yn anoddach i DHCW gynllunio'n effeithiol ac wedi cywasgu'r amser sydd ganddo i'w bodloni. Dilynodd DHCW ddull rhesymegol, gan integreiddio gofynion llythyrau cylch gwaith yn ei gynlluniau ehangach. O ran llythyrau cylch gwaith 2025-26 a 2026-27, o ganlyniad i gyhoeddi'n hwyr a'r diffyg ymgysylltiad cryf rhwng Llywodraeth Cymru a DHCW, roedd yn anoddach i DHCW eu hymgorffori'n llawn yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- 10 Yn y ddwy flynedd, paratowyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig drafft i'w gymeradwyo yng nghyfarfod mis Mawrth y Bwrdd. Yn 2025–26, cymerodd oddeutu tri mis arall i gysoni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig â'r gofynion y llythyr cylch gwaith. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd y nifer mawr o wahanol gyflawniadau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r llythyr cylch gwaith. Roedd llythyr cylch gwaith 2025-26 yn cynnwys 94 o gyflawniadau a 71 o gerrig milltir. Roedd hyn ochr yn ochr â 345 o gerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig gwreiddiol. Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28 DHCW yn nodi ei fod wedi blaenoriaethu gofynion y llythyr cylch gwaith dros gynlluniau presennol. Gallai hyn fod wedi arwain at rywfaint o waith arfaethedig yn cael ei atal neu ei ohirio. Yn ogystal â hynny, cyflwynwyd blaenoriaethau eraill gan Lywodraeth Cymru drwy'r Cynllun Gwella Uwchgyfeirio.

- 11 Rheolodd DHCW y newidiadau hyn drwy ei broses rheoli newid safonol ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd. Roedd yr amserlen a'r broses yn cyfyngu'r posibilrwydd o unrhyw ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid ar ofynion y llythyr cylch gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y Bwrdd yn hysbys iawn am y cynnydd o ran sicrhau cysondeb rhwng gofynion y cynllun a gofynion y llythyr cylch gwaith. Adroddodd diweddariad arall ym mis Gorffennaf 2025 fod 86% o gerrig milltir y llythyr cylch gwaith a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi eu cysoni a'u hintegreiddio mewn cynlluniau. Ni ddarparwyd diweddariad arall i'r Bwrdd ar y cysoniad.
- 12 Roedd y broses rheoli newid yn cynnwys asesiad o effaith y llythyr cylch gwaith. Roedd hyn yn cynnwys yr adnoddau a'r gweithlu sydd eu hangen i'w gyflawni. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir o unrhyw broses ailddyrannu adnoddau mawr neu benodol i fodloni gofynion y llythyr cylch gwaith.
- 13 Mae llythyr cylch gwaith 2026–27 eleni yn nodi set llai a llai manwl o flaenoriaethau a chyflawniadau. Cymerodd y broses gysoni lai o amser o ganlyniad i hynny. Yn bennaf roedd yn cynnwys un cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion DHCW, a dim ond wyth maes a noddodd yr oedd angen eu gweithredu gan gynnwys gofal a gynlluniwyd a'r rhaglen frechlynnau. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ansicrwydd o hyd. Mae hyn yn cynnwys cwestiynau ynghylch y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol, ac effaith rhewi recriwtio a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- 14 Mae'r broses integreiddio a ddisgrifir uchod yn ymgorffori gofynion llythyr cylch gwaith mewn blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig ehangach. Mae'r dull yn sicrhau bod gan DHCW un cynllun y cytunir arno ar gyfer y flwyddyn, yn hytrach na blaenoriaethau sy'n cystadlu. Er bod hyn yn ddefnyddiol o ran cefnogi'r broses o fodloni gofynion, mae'n ei gwneud yn anodd olrhain pa ofynion penodol sy'n cael eu bodloni. Ni ddaethom o hyd i adroddiadau clir ar fodloni gofynion llythyrau cylch gwaith nac yn ystod y flwyddyn nac ar ddiwedd y flwyddyn. Trafodir hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Risg ariannol a lliniaru

Gallai ansicrwydd ariannol yn 2026–27 danseilio'n sylweddol y broses o fodloni gofynion y llythyr cylch gwaith

- 15 Derbyniodd DHCW ei lythyr cyllido 2025–26 yn hwyr yn y broses gynllunio, ond ni arweiniodd hyn at risgiau ariannol mawr. Cadarnhaodd y llythyr gyllid craidd sylfaenol o £78.944 miliwn a £3.250 miliwn ar gyfer buddsoddi. Roedd hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol drwy'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol.
- 16 Oherwydd bod llawer o'r cyllid hwn a'r prif raglenni yn parhau i fynd rhagddynt o flynyddoedd blaenorol, roedd gan DHCW lefel dda o sicrwydd a hyder wrth fodloni'r gofynion. Roedd angen i DHCW ddiweddarau ei gynlluniau ac addasu'r modd yr oedd yn defnyddio ei adnoddau er mwyn cydweddu â'r llythyr cyllido terfynol. Ond ar y cyfan, roedd y dull a'r sicrwydd cyllid yn galluogi DHCW i ganolbwyntio ar gyflawni ei gynllun.
- 17 Mae gan DHCW ddull clir o reoli ac adrodd ar ei risgiau ariannol. Nododd adroddiad Cofrestr Risgiau Corfforaethol ei Fwrdd ym mis Chwefror fod DHCW wedi ysgwyddo rhai costau yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gweinidogol a'r bwrdd iechyd a wariwyd ar Ap y GIG. Er gwaethaf hyn, arhosodd DHCW o fewn ei gyllideb ar gyfer 2025–26 ac adroddodd danwariant bach o £0.241 miliwn².

² Cyflwynir y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o adroddiadau ariannol heb eu harchwilio (ffurflenni monitro misol) i Lywodraeth Cymru.

18 Mae ansicrwydd sylweddol o ran sut y bydd adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer blaenoriaethau llythyr cylch gwaith 2026–27. Er gwaethaf dull rhwyddach o integreiddio gofynion llythyr cylch gwaith eleni i gynlluniau ar y cyfan, mae’r risgiau ariannol i fodloni’r gofynion yn llawer mwy. Er bod cyllid craidd o £77.710 miliwn a nodir yn y llythyr, nid oes sicrwydd hyd yn hyn ynghylch cyllid ehangach y rhaglen (**Arddangosyn 1**). Mae’r mater hwn yn deillio o’r adolygiad a gynhelir o’r Buddsoddiad mewn Blaenoriaethau Digidol sy’n golygu nad oes sicrwydd ynghylch y cyllid hwn ar hyn o bryd.

Arddangosyn 1: dyraniad ariannol 2025-26 a 2026-27 yn y llythyr cylch gwaith, £ Miliwn

Dyraniad	2025-26 (£ miliwn)	2026-27 (£ miliwn)
Refeniw Dyraniad cyllid craidd	£70.9	£77.7
Adnoddau Anghyllidol	£8.1	£8.1
Technoleg a Rheoli Gwybodaeth Gofal Sylfaenol	£19.7	£22.4
Datblygu Gofal Sylfaenol	Heb ei gynnwys	£0.2
Cyfalaf Dewisol	£3.3	Heb ei gynnwys
Refeniw Blaenoriaethau Cenedlaethol (Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol)	£20.2	Heb ei gynnwys

Cyfalaf Blaenoriaethau Cenedlaethol (Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol)	£9.0	Heb ei gynnwys
--	------	----------------

Ffynhonnell: DHCW

- 19 Ym mis Mawrth 2026, hysbysodd DHCW Lywodraeth Cymru ei fod wedi ymrwymo gwariant ar gyflogau a gwariant nad yw ar gyflogau ar gyfer rhaglenni digidol mawr yn 2026-27. Mae ffigurau cynllun ariannol 2026-27 DHCW a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn cynnwys £32.9 miliwn mewn refeniw a £13.1 miliwn ar gyfer buddsoddiadau digidol. Mae hyn yn creu risgiau i flaenoriaethau digidol eraill. Lle nad yw'r cyllid wedi ei gadarnhau, mae DHCW wedi cynnwys y gwaith yn ei gynlluniau fel cyflawniadau heb eu hariannu. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cenedlaethol megis Ap GIG Cymru, yr Adnodd Data Cenedlaethol, Cysylltu Gofal, a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae hyn yn helpu i ddangos yn glir lle mae'r risgiau a'r rhagdybiaethau.
- 20 Mae DHCW wedi ymrwymo i wneud arbedion er mwyn aros o fewn ei gyllideb. Un gofyniad ar gyfer 2026–27 yw atal rhan fwyaf o'r recriwtio. Mae DHCW yn dal yn gallu recriwtio ar gyfer swyddi hanfodol, ond mae'n rhaid iddo edrych yn gyntaf ar ddewisiadau megis symud staff presennol i swyddi newydd.
- 21 Po hiraf y mae'r recriwtio yn parhau i fod wedi ei rewi, y mwyaf yw tebygolrwydd y risgiau. Gallai ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol gynyddu risgiau dros amser hefyd. Gallai hyn arwain at orwariant, lleihau cynlluniau, neu golli staff medrus oherwydd ansicrwydd ariannol. Mae DHCW wedi cwblhau adolygiad sylfaenol o'i adrannau i edrych ar y cyflawniadau, y risgiau, y gweithlu a'r blaenoriaethau. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at adolygiad ariannol llawn erbyn diwedd mis Mehefin 2026. Ar ôl hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid parhau i rewi recriwtio.

- 22 Mae'r Bwrdd yn gallu gweld prif risgiau ariannol 2026–27 yn dda. Mae hyn yn cynnwys risgiau i ariannu a chyflawni rhai rhaglenni cenedlaethol, cynaliadwyedd model cyllido DHCW, dibyniaeth ar gyllid tymor byr, a risgiau gweithlu. Mae hefyd wedi tynnu sylw at risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawniadau 2025-26 wedi eu gohirio neu heb eu cyflawni a allai gael eu dwyn ymlaen i 2026-27.
- 23 Rydym yn deall y bydd penderfyniadau am gyllid yn ystod y flwyddyn yn dilyn prosesau cymeradwyo a rheoli arferol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol yn newid yn gyflym, felly mae angen i DHCW roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am risgiau, cynlluniau wrth gefn, a chymau gweithredu fel y gellir eu rheoli. Efallai y bydd angen i'r Bwrdd gytuno ar set lai o flaenoriaethau cyflawni allweddol. Mae'n enwedig o bwysig bod y Pwyllgor Cyflawni Portffolio yn uwchgyfeirio risgiau'n sydyn, oherwydd eu bod yn gallu effeithio ar gyflawni rhaglenni allweddol.

Asesu'r cyflawniad

Mae dull adrodd DHCW yn ei gwneud yn anodd gweld yn glir i ba raddau y mae gofynion y llythyr cylch gwaith wedi eu bodloni

- 24 Mae DHCW yn adrodd y cynnydd o'i gymharu â chynlluniau, cyflawniadau, ac unrhyw feysydd na chyflawnir i'r Bwrdd drwy sawl llwybr. Mae hyn yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad rheolaidd, Cynllun Tymor Canolig Integredig ac adroddiadau rhaglenni mawr, a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Uwchgyfeirio. Mae'r Pwyllgor Cyflawni Portffolio yn goruchwyllo'r holl raglenni mawr ac yn olrhain y cynnydd o'i gymharu â cherrig milltir allweddol. Fodd bynnag, mae'r ystod eang o adroddiadau yn ei gwneud yn anoddach cael darlun clir a chyson o'r perfformiad.
- 25 Roedd y dull o sicrhau cysondeb rhwng y llythyr cylch gwaith a chyflawniadau y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ymarferol ac yn bragmatig. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn creu rhaglen gyfunol i gyflawni yn hytrach na rhaglen sy'n cystadlu. Fodd bynnag, mae'n golygu nad yw'r dull adrodd presennol yn gwahanu'n glir gyflawniadau y Cynllun Tymor Canolig Integredig a gofynion y llythyr cylch gwaith. O ganlyniad, nid yw bob amser yn glir pa mor dda y mae DHCW yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru. Hefyd, nid yw'r adrodd yn ddigon clir inni ddarparu asesiad cadarn ar fodloni gofynion llythyr cylch gwaith 2025-26 yn benodol.
- 26 Nododd adroddiad perfformiad integredig DHCW i Fwrdd mis Mawrth 2026 fod DHCW wedi cyflawni 65% o holl gerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig ym mis Chwefror. Nododd adroddiad perfformiad diweddaedig i Fwrdd mis Mai 2026 fod 94% o gerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi eu cyflawni. Er bod hyn yn ganlyniad cryf, mae'n awgrymu bod DHCW wedi gadael ei hun gyda chynnydd sylweddol ar ôl i'w gyflawni gyda dim ond un mis ar ôl yn y flwyddyn ariannol.

- 27 Er bod estyn cynlluniau yn helpu i ddangos uchelgais, gallant greu meysydd pwysau mewnol hefyd, risg bosibl, ac effeithio ar hygyrdd sefydliadol. Mae'n bosibl y bydd ansicrwydd ariannol 2026-27 wedi cymhlethu'r risgiau hyn ymhellach.
- 28 Mae DHCW wedi aros ar Lefel Uwchgyfeirio 3 ar gyfer rhaglenni mawr ers mis Mawrth 2025 ac mae bellach wedi symud i Lefel 4. Mae hyn yn debygol o arwain at graffu cynyddol ar yr hyn a gyflawnir. Mae'n ei gwneud yn bwysicach dangos yn glir bod gofynion llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i DHCW osod uchelgais ymestynnol ond realistig a dull adrodd mwy tryloyw fel y gellir dangos ar ddiwedd y flwyddyn fod gofynion y llythyr cylch gwaith yn cael eu bodloni.
- 29 Byddai hyn yn galluogi DHCW i sicrhau ei hun yn well ar y cynnydd o'i gymharu â'r llythyr cylch gwaith ac i nodi unrhyw risgiau a newidiadau i flaenoriaethau allweddol. Byddai hyn hefyd yn helpu i dynnu sylw at unrhyw fylchau, gan gynnwys meysydd o beidio â chyflawni bosibl neu wirioneddol. Yn ogystal â hynny, byddai'n cefnogi adrodd mwy tryloyw ar y materion hyn, ynghyd â chymau gweithredu a chynlluniau lliniaru y cytunir arnynt.

Argymhellion

30 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn y tabl canlynol.

A1 Dylai DHCW weithio gyda Llywodraeth Cymru yn gynharach fel y gall baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n ymgorffori gofynion y llythyr cylch gwaith erbyn dechrau y flwyddyn ariannol canlynol. **(Paragraff 9)**

A2 Dylai DHCW sicrhau ei fod yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar lefel y risg ariannol i gyflawni blaenoriaethau y llythyr cylch gwaith a Chynllun Tymor Canolig Integredig 2026–29. Dylai'r adroddiadau hyn nodi'r camau lliniaru arfaethedig yn glir hefyd. **(Paragraff 23)**

A3 Dylai DHCW sicrhau bod proses sengl, clir, a thryloyw er mwyn adrodd y cynnydd yn benodol o'i gymharu â blaenoriaethau y llythyr cylch gwaith gan gynnwys ailflaenoriaethu neu ailddyrannu unrhyw adnoddau. **(Paragraffau 12 ac 28)**

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw asesu pa mor dda y mae DHCW yn ymateb i'r gofynion strategol a gweithredol a nodir yn ei lythyrau cylch gwaith ar gyfer 2025–26 a 2026–27. Mae hyn yn cynnwys adolygu pa mor effeithiol y mae DHCW wedi integreiddio'r gofynion hyn i'w gynlluniau presennol, megis Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025–28 a 2026–29.

Mae hefyd yn ystyried cryfder y trefniadau llywodraethu a goruchwyllo ar gyfer cefnogi'r broses o gyflawni, a'r cynnydd a wnaed wrth fodloni gofynion y llythyr cylch gwaith.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A yw DHCW wedi integreiddio cyflawniadau a cherrig milltir y llythyr cylch gwaith i'w fframwaith cynllunio presennol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r Cynllun Blynyddol?
- A yw DHCW yn dangos goruchwyliaeth dda o'r broses o fodloni gofynion y llythyr cylch gwaith?
- A yw cynlluniau diwygiedig DHCW yn cefnogi'r broses o fodloni gofynion y llythyr cylch gwaith?

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Ein hadolygiad o asesiad strwythuredig DHCW ar gyfer 2025.
- Trafodaeth ag aelodau o Fwrdd DHCW.
- Adolygiad o lythyrau cylch gwaith 2025-26 a 2026-27 DHCW.

- Cyfraniad cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru.

Meini Prawf

Defnyddiodd yr archwiliad y meini prawf archwilio canlynol (yr hyn y gallem ddisgwyl ei weld):

- Mae DHCW wedi integreiddio gofynion y llythyr cylch gwaith yn effeithiol i gynlluniau presennol ac wedi blaenoriaethu adnoddau yn briodol er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni.
- Mae DHCW wedi cyflwyno ac yn dangos trefniadau cyllid, llywodraethu a sicrwydd effeithiol sy'n gwella'r tebygolrwydd o fodloni gofynion y cylch gwaith yn effeithiol.
- Mae DHCW yn dangos bod ei gamau gweithredu wedi helpu i gyflawni llawer o gyflawniadau allweddol ran o'r ffordd i mewn i'r flwyddyn, sy'n gwella'r tebygolrwydd y bydd gofynion y cylch gwaith yn cael eu bodloni erbyn diwedd y flwyddyn.

Dulliau

Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys y llythyrau cylch gwaith ar gyfer 2025-25 a 2026-27, ymateb DHCW i lythyr cylch gwaith 2026-27, ac Adroddiad Blynyddol 2025 DHCW.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-28 a 2026-29.
- Dogfennau rheoli risgiau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Nodiadau o drafodaethau cysoni llythyr cylch gwaith 2026-27/y Cynllun Tymor Canolig Integredig rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion DHCW.

- Ffurflenni Monitro Misol

Gwnaethom gynnal cyfweiliadau â'r rhanddeiliaid canlynol:

- Cadeirydd Interim.
- Is-gadeirydd Interim.
- Prif Swyddog Gweithredol.
- Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Ddigidol.
- Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol.
- Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd.

Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgor Cyflawni Portffolio.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.